



## 2016

Codi  
uchelgais a  
chyrhaeddiad  
addysgol plant  
sy'n derbyn  
gofal yng  
Nghymru

## 2010

Gwasanaeth  
Integredig  
Cymorth i  
Deuluoedd  
(IFSS)

## 2014

Deddf  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
a Llesiant  
(Cymru)

Mynd â  
Chymru  
Ymlaen  
2016-2021

## 2021

Dull ysgol  
gyfan o ymdrin  
a llesiant  
emosiynol  
a meddyliol

## 2018

Rhaglen  
Gweithredu  
Cynnari  
Gyda'n Gilydd

# Gwaith amlasiantaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: Llinell amser polisi

Rhaglen  
Teuluoedd  
yn Gyntaf

## 2012

Deddf Llesiant  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
(Cymru)

## 2015

Ffyniant i Bawb:  
Y strategaeth  
genedlaethol  
Grŵp Cynghori  
Gweinidogol  
ar Wella  
Canlyniadau  
i Blant

Adolygiadau  
Arolygiaeth  
Gofal Cymru

## 2019

## 2017

## Cyflwyniad

Mae gwaith amlasiantaeth wedi bod yn ganolog mewn polisi sy'n ceisio gwella canlyniadau a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal, gan gydnabod yr angen am ddull cyfannol a system gyfan sy'n canolbwytio ar ymyrraeth gynnar ac ataliaeth. Mae ystod o bolisiau, deddfwriaeth a rhagleni yng Nghymru yn annog neu'n galw am waith amlasiantaeth mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal, wedi'u cefnogi gan fframweithiau arolygu ac ymrwymiadau gweinidogol. Mae'r briffiad polisi hwn yn nodi'r prif ddatblygiadau polisi sy'n gysylltiedig â gwaith amlasiantaeth i blant sy'n derbyn gofal ers 2010.

## 2010: Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)

Sefydlodd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS), rhaglen ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd lle mae'r rhieni'n camddefnyddio alcohol neu sylweddau, y mae eu plant mewn perygl o gael eu cymryd i ofal. Fel rhan o'r rhaglen mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithredu i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd. Yng ngwerthusiad 2014 cafwyd bod hyn yn gwella'r canlyniadau tymor byr ar gyfer rhai mathau o deuluoedd, gyda'r 'dull cyflwyno amlasiantaeth a ddefnyddir yn cael ei ystyried yn hynod effeithiol' (Llywodraeth Cymru, 2014a), ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod y model gwreiddiol y mae'r IFSS wedi'i seilio arno yn gallu atal plant rhag cael eu rhoi mewn lleoliadau y tu allan i'r cartref (Bezeczký et al., 2019).

## 2012: Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf


Nod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yw gwella'r gwasanaethau y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i deuluoedd, atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a lliniaru effeithiau ACEs ar y rhai sy'n dod i gysylltiad â nhw. Mae'n 'hyrwyddo mwy o waith amlasiantaeth i

sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cefnogaeth gydgysylltiedig pan fydd angen hynny arny'n nhw ... [ac] yn darparu cefnogaeth gynnar i deuluoedd gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu'. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio ar draws continwwm cefnogaeth o wasanaethau cyffredinol i wasanaethau arbenigol, gan gynnwys teuluoedd ag anghenion lluosog.

Mae elfennau allweddol Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys: 1) Fframwaith Asesu ar y Cyd (JAF), sy'n annog gwaith amlasiantaeth wrth asesu anghenion a sut i'w diwallu; 2) Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), sy'n hyrwyddo rhannu gwybodaeth, systemau cymorth amlasiantaeth cydgysylltiedig, a dull teulu-ganolog, wedi'i alinio â JAF; 3) Ffocws Anabledd, i gydnabod anghenion penodol teuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt; a 4) Comisiynu Strategol, sy'n osgoi dyblygu neu fylchau ac yn cwmpasu trais domestig, cyflogaeth, iechyd, ac ati.

Canfu gwerthusiad fod 'y rhaglen wedi cyflymu cynnydd [gwaith amlasiantaeth] trwy gynyddu nifer yr asiantaethau sy'n cydweithredu ac i baraddau maent yn cydweithredu' (Llywodraeth Cymru, 2015). Ymhlið yr heriau roedd cyllid, cynnwys partneriaid mewn gwasanaethau gor-estynedig megis iechyd a iechyd meddwl, a'r angen am systemau i danategu gweithio ar y cyd.

Er bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi addasu mewn ymateb i bandemig y Coronafeirws (Llywodraeth Cymru, 2021a), mae gwaith amlasiantaeth yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r rhaglen.



Ffurig 1: Gwaith amlasiantaeth effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal **Teuluoedd yn Gyntaf**

## **2014: Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

Rhoddodd y Ddeddf hon ddyletswydd ar awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd i hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth. Mae Egwyddorion y Ddeddf yn amlinellu ffocws ar bartneriaeth ac ataliaeth. Cyflwynodd bartneriaethau statudol newydd rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd 'i ysgogi integreiddio, arloesi a newid gwasanaeth' (Llywodraeth Cymru, 2014b).

Roedd Rhan 6 o'r Ddeddf yn darparu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru gan gynnwys cynllunio gofal, lleoli ac adolygu. Roedd yn nodi Cynllun Gofal a Chymorth Rhan 6 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am gynlluniau iechyd, lleoliad ac addysg y plentyn ac yn adlewyrchu'r 'cyfraniad amlasiantaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag ystod lawn llesiant y plentyn, a'i anghenion datblygu' (Senedd Cymru, 2014).

## **2015: Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Difodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith nod llesiant i Gymru ac yn gosod dyletswydd ar gyrrf cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd) i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd camau rhesymol i'w cyflawni. Sefydlodd Fyddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Un o'u meysydd blaenoriaeth yw ACEs. Sefydlwyd Hwb Cymorth ACE gan Bartneriaeth Cymru Well Wales, gyda chefnogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Difodol, i gefnogi pob corff cyhoeddus i fynd i'r afael ag ACEs a chynnwys partneriaethau sy'n canolbwytio ar ddulliau ataliol amlasiantaeth, er enghraift gyda'r heddlu a phartneriaid cyflawnder trosedol.

## **2016: Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru**

Nod y strategaeth ar y cyd hon ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru oedd cyflawni'r nodau a gafwyd yn Neddff Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a 'gwaith amlasiantaeth effeithiol' yn ogystal ag arweinyddiaeth a rolau a chyfrifoldebau clir (Llywodraeth Cymru, 2016a).

## **2016: Mynd â Chymru Ymlaen 2016-2021**

Roedd hwn yn nodi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru a chynllun cyflawni ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru. Roedd y blaenoriaethau hyn yn cynnwys 'gwaith i leihau defnydd diangen o ofal, gan adeiladu ar waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd' (Llywodraeth Cymru, 2016b).

## **2017: Ffyniant i Bawb: Y strategaeth genedlaethol**

Amlinelloedd hyn uchelgeisiau ar gyfer 'codi cyrhaeddiad addysgol a gwella cyfleoedd bywyd plant mewn gofal, gan fabwysiadu dull sy'n canolbwytio ar y plentyn, trwy gydweithrediad addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill'. Ei nod oedd 'creu system ymatebol fwy cydgysylltiedig' a threialu 'ardaloedd Plant yn Gyntaf' i ganolbwytio ar wasanaethau integredig er mwyn lleihau nifer yr ACEs, yn ogystal â chreu 'gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o ACEs'. Roedd hefyd yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar i helpu plant i aros gyda theuluoedd a sefydlu canolfannau lle mae cefnogaeth wedi'i chydleoli ar gael (Llywodraeth Cymru, 2017).

## **2017: Grŵp Cynggori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant**

Sefydlodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y Rhaglen traws-sector, traws-

lywodraethol Gwella Canlyniadau i Blant, a gefnogir gan Grŵp Cyngori Gweinidogol (MAG). Canfu ymchwiliad gwerthfawrogol a gynhaliwyd gan y MAG ar draws chwe awdurdod lleol i nodi dulliau effeithiol o leihau cyfraddau gofal fod pob un yn arddangos 'systemau gofal integredig lle roedd timau amlasiantaeth yn darparu cefnogaeth amserol i deuluoedd fel bod modd dad-ddwysáu neu osgoi argyfyngau' ac yn amlygu pwysigrwydd 'newid system gyfan ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r tu hwnt' i fynd i'r afael â ffactorau sy'n gyrru'r angen am wasanaethau gofal megis dod i gysylltiad ag ACEs (Irranca-Davies, 2018).

Mae gwaith y rhaglen hyd yma yn cynnwys (Llywodraeth Cymru, 2019):

- Y Grŵp Tasg a Gorffen Rhianta Corfforaethol i wella'r cynnig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac ystyried pa gyfrifoldebau rhianta corfforaethol sydd y tu hwnt i awdurdodau lleol mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, gan gynnwys addysg a sgiliau ac iechyd emosiynol a meddyliol.
- Lansio adroddiad *Gwrando.Gweithredu*. Ffynnu ar iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal a oedd yn argymhell 'y dylai awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, gydweithio i ddarparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal' (NSPCC Cymru, 2019).

Mae'r MAG hefyd yn canfod bod y ffactorau y gellir eu priodoli i amrywiad yng nghyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru yn cynnwys gwaith amlddisgyblaeth, rhannu gwybodaeth a chynllunio integredig ynghylch ymyrraeth gynnari / ataliaeth. Mae'r camau nesaf ar gyfer y rhaglen waith yn cynnwys archwilio mechanweithiau BPRh ar gyfer asesiadau risg amlasiantaeth a chynllunio a hyrwyddo modelau ymarfer integredig rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

## 2018: Rhaglen Gweithredu Cynnari Gyda'n Gilydd

Mae'r rhaglen Gweithredu Cynnari Gyda'n Gilydd yn bartneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r gwasanaethau heddlu, carchardai a phrawf sy'n canolbwytio ar leihau effaith ACEs trwy waith ataliol, amlasiantaeth gydag asiantaethau fel gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a thai.

## 2019: Adolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (2019a, 2019b) amryw arsylwadau ac argymhellion yn ymwneud â gwaith amlasiantaeth yn adroddiadau 2019, gan gynnwys:

- 'Nid oedd teuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth bob amser yn cael eu cefnogi'n llawn gan ymateb amlasiantaeth priodol' - ni ddigwyddodd ymchwiliadau amddiffyn plant y cytunwyd eu cynnal ar y cyd â'r heddlu oherwydd anawsterau capaciti, neu nid oedd cynrychiolwyr â sgiliau priodol yn bresennol ar gyfer cynadleddau.
- Er bod rhywfaint o waith amlasiantaeth effeithiol ar gyfer teuluoedd a gofalwyr lle roedd risgiau o niwed sylweddol, roedd angen gwelliannau o hyd o ran diogelu, gan fod 'cyfranogiad partneriaid amlasiantaeth mewn trafodaethau strategaeth yn gyfyngedig'.
- Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cyflwyno Hybiau Diogelu Amlasiantaeth - roedd y trefniadau'n amrywio ond nod yr hybiau oedd gwella rhannu gwybodaeth a rheoli atgyfeiriadau.
- 'Er bod pob awdurdod lleol yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd, nid oedd gan y mwyafrif fframwaith amlasiantaeth wedi'i wreiddio'n dda'.

Roedd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella yn cynnwys strategaethau amlasiantaethol i sicrhau bod oedi cyn cyrraedd plant sy'n cael addysg yn cael ei leihau a dull amlasiantaethol o adolygu a lleihau digwyddiadau o weithgaredd troseddol i blant. Roedd yr adroddiadau'n

argymhellir gwaith amlasiantaeth, gyda chefnogaeth 'arweinwyr gweithredu' ym mhob ardal ranbarthol / bwrdd iechyd. Anogir ysgolion ac asiantaethau eraill i ddatblygu partneriaethau cadarnhaol, gan gynnwys trwy bartneriaethau rhyng-ysgol, datblygu cymunedau ymarfer, ceisio cyfleoedd ar gyfer cyd-gaffael, a sefydlu mecanweithiau rhannu gwybodaeth.

## 2021: Dull ysgol gyfan o ymdrin a llesiant emosiynol a meddyliol

Mae hwn yn fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysg eraill i'w helpu i ddatblygu eu dulliau eu hunain o ymdrin â llesiant (Llywodraeth Cymru, 2021b). Er nad ydynt yn canolbwytio'n benodol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mae eu hanghenion yn cael eu hystyried yn y canllawiau. Mae'n seiliedig ar y syniad nad ysgolion yn unig sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion pobl ifanc a bod angen i gyrrf rhanbarthol, y GIG, a'r trydydd sector gefnogi ysgolion. O ganlyniad, argymhellir gwaith amlasiantaeth, gyda chefnogaeth 'arweinwyr gweithredu' ym mhob ardal ranbarthol / bwrdd iechyd. Anogir ysgolion ac asiantaethau eraill i ddatblygu partneriaethau cadarnhaol, gan gynnwys trwy bartneriaethau rhyng-ysgol, datblygu cymunedau ymarfer, ceisio cyfleoedd ar gyfer cyd-gaffael, a sefydlu mecanweithiau rhannu gwybodaeth.

## 2021: Rhaglen Lywodraethu

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiadau i gefnogi gwaith amlasiantaeth a fydd yn effeithio ar blant sy'n derbyn gofal, megis hyrwyddo dull 'dim drws anghywir' yng nghyswllt cymorth iechyd meddwl ac estyn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed mewn ysgolion ledled Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021c).

## Cyfeiriadau

Barrance, R (2018). Hawliau Dynol Plant yng Nghymru: Adolygiad o'r Dystiolaeth. WISERD. Cychwyd o <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/The-Human-Rights-of-Children-in-Wales.pdf>

Bezeczky, Z., El-Banna, A., Kemp, A., Scourfield, J., Forrester, D. a Nurmatov, U. (2019). Intensive Family Preservation Services to prevent out-of-

home placement of children: a systematic review and meta-analysis. What Works Centre for Children's Social Care. Cychwyd o <https://whatworks-csc.org.uk/wp-content/uploads/WWCSC-Intensive-Family-Preservation-Services-to-prevent-out-of-home-placement-of-children-v2.pdf>

Arolygiaeth Gofal Cymru. (2019a). Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc â phrofiad o ofal. Cychwyd o [https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-06/190619-national-overview-report-en\\_2.pdf](https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-06/190619-national-overview-report-en_2.pdf)

Arolygiaeth Gofal Cymru. (2019b). Adolygiad Cenedlaethol o Gartrefi Gofal i Blant yng Nghymru. Cychwyd o <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2019-09/190926-national-review-of-care-homes-en.pdf>

IPC (2018). Dadansoddiad o ganlyniadau plant a phobl ifanc 4 i 5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol Cychwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180515-placement-outcomes-children-young-people-4-5-years-after-final-care-order-summary-en.pdf>

Irranca-Davies, H. (2018). Datganiad gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol: Gwella canlyniadau i blant yng Nghymru: Lleihau'r Angen i Blant Fynd i Ofal, a Gwaith y Grŵp Cynghori Gweinidogol. Sesiwn lawn: 13 Tachwedd 2018. Senedd Cymru. Cychwyd o <https://record.assembly.wales/Plenary/5363?lang=en-GB#A46725>

NSPCC. 2019. Gwrando. Gweithredu. Ffynnu. Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc sydd a Phrofiad o Ofal. Cychwyd o <https://vfcc.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/ListenActThrive.pdf>

Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai (2017). In Care, Out of Trouble. Cychwyd o <http://www.prisonreformtrust.org.uk/Portals/0/Documents/Care%20review%20impact%20report%20Jan%202017%20UPDATE%20FINAL.pdf>

Senedd Cymru. (2014). Rhan 6 - Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cychwyd o <https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld10411/sub-ld10411-e.pdf>

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2015). Darpariaeth ar gyfer Ymadawyr Gofal Ifanc sydd mewn perygl o fod yn Ddигartref. Cychwyd o <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Report-Provision-for-young-care-leavers-at-risk-of-homelessness-FINAL.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2014a). Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd -

**Adroddiad Cryno Blwyddyn 3.** Cychwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/140328-evaluation-integrated-family-support-service-year-3-summary-en.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2014b). **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Cychwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2015). **Gwerthusiad cenedlaethol o Teuluoedd yn Gyntaf: adroddiad blwyddyn 3.** Cychwyd o <https://gov.wales/national-evaluation-families-first-year-3-report>

Llywodraeth Cymru. (2016a). **Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Strategaeth.** Cychwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/strategy-raising-the-ambitions-and-educational-attainment-of-children-who-are-looked-after-in-wales.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2016b). **Mynd â Chymru Ymlaen, 2016-2021** Cychwyd o <https://dera.ioe.ac.uk/27564/1/160920-taking-wales-forward-en.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2017). **Ffyniant i bawb: Y strategaeth genedlaethol.** Cychwyd o <https://w001.benade.co.uk/wp-content/uploads/2020/01/Prosperity-for-all.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2019). **Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant: Adroddiad blynnyddol Grŵp Cynghori Gweinidogol 2019.** Cychwyd o [https://socialcare.wales/cms\\_assets/file-uploads/Improving-outcomes-for-children-programme-annual-report-2019.pdf](https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Improving-outcomes-for-children-programme-annual-report-2019.pdf)

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Canllawiau Rhybudd Lefel 4 ar gyfer Gwasanaethau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf - COVID 19.** Cychwyd o <https://www.exchangewales.org/families-first-and-flying-start-advice-and-guidance-for-covid-19/>

Llywodraeth Cymru. (2021b). **Fframwaith ar wreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.** Cychwyd o <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-03/framework-on-embedding-a-whole-school-approach-to-emotional-and-mental-well-being.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2021c). **Rhaglen Lywodraethu.** Cychwyd o <https://gov.wales/programme-for-government-2021-to-2026-html#section-73287>

## Rhagor o wybodaeth

Ar gyfer yr adolygiad tystiolaeth cysylltiedig, gweler Peixoto Gomes, L. (2021). **Gwaith amlasiantaeth a deilliannau i blant sy'n derbyn gofal: Adolygiad tystiolaeth.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael y rhestr gyfeirio lawn sy'n gysylltiedig â'r adolygiad tystiolaeth, gweler Peixoto Gomes, L. (2021). **Gwaith amlasiantaeth a deilliannau i blant sy'n derbyn gofal: Ffynonellau'r adolygiad tystiolaeth.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r ganolfan, a gaiff ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a

Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio ('What Works') y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Emma Taylor-Collins**

[emma.taylor-collins@wcpp.org.uk](mailto:emma.taylor-collins@wcpp.org.uk)

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



[www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)



029 2087 5345



[info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)



@WCfPP



Economic  
and Social  
Research Council



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government